


## 1. *Marchantia polymorpha* · Cwpanllys Cyffredin



*Mae M. polymorpha* yn gwpanllys thalus trawiadol sy;'n edrych yn wastad fel siten. Oherwydd ei fod yn gallu atgynhyrchu'n hawdd, byddai Cwpanllys Cyffredin yn cael ei ddefnyddio mewn nifer o astudiaethau cynnar o feithrin meinweoedd.

## 2. *Frullania dilatata* · Hemlys Cyffredin



Mae'n aml yn ffurfio clytiau trwchus glasgoch ar fonion a changhennau coed, ac mae'n hawdd colli'r manylion. O edrych arno'n fanylach gwelwch ddail fel cen ar yr hemlys bychan hwn. Gall y tyfiant newydd fod yn wyrdd gan wneud iddo edrych yn fwy amrywiol.

## Ynglŷn â bryoffitau

Mae mwsogl, sydd hefyd yn cael ei alw'n bryoffit, yn blanhigyn an-fasgwlaidd nad oes ganddo wreiddiau iawn, dail na choesau. Mae'r term bryoffit yn cynnwys y cwpanllys llai adnabyddus a'r cornllys hefyd. Gan fod bryoffitau yn un o'r grwpiau planhigion hynaf, roeddent yn gam cychwynnol yn esblygiad planhigion y ddaear. Datblygodd bryoffitau cyn hadau ac maent wedi bod yn atgynhyrchu drwy gyfrwng sborau a rhannau atgynhyrchiol ers dros 400 miliwn o flynyddoedd. Yma yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru mae dros 130 o fathau wedi eu cofnodi.

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

garddfotaneg.cymru
botanicgarden.wales
Rhif Elusen | Charity Number · 1036354
Llyniau | Photos · Leila Franzen
Dylunio | Design · Jac Towler



Taith

# Y Llwybr Mwsogl

*Mae'r Ardd Fotaneg yn orlawn o bryoffitau hardd.*

## 3. *Plagiomnium undulatum* · Tafod yr Hydd



Mae dail *P. undulatum* mor denau nes gallwch weld drwyddyn nhw bron. Mae'r wyneb yn donnog ac yn debyg iawn i ddail rhedynen Tafod yr Hydd.

## 4. *Cryphaea heteromalla* · "Lateral Cryphaea"



*C. heteromalla,* roedd hwn yn brin iawn yn y 1980au oherwydd llygredd sylffwr deuocsid, ond gyda deddfwriaeth i lanhau'r awyr mae'r mwsogl hwn wedi dod yn ddigon cyffredin. Mae'r goes fel brwsh potel, ac felly mae'r canghennau'n gwneud i'r coed edrych yn wlanog.

## 5. *Grimmia pulvinata* · "Grey-cushioned Grimmia"




Mae'r blew gwyn rhyfeddol yn lleihau effeithiau'r gwynt a phelydr UV gan ganiatau i'r mwsogl hwn gadw'r lleithder hyd yn oed mewn mannau agored fel creigiau moel.
Bydd y sboroffytau yn eistedd a'r capsiwl wedi ei wasgu i lawr nes iddyn nhw aeddfedu, gan greu cylchoedd bach ar wyneb y glustog.

## 6. *Polytrichum juniperinum* · Merywen Capan



Yn anarferol i fwsogl, mae gan *P. juniperinum* gelloedd sy'n cludo dŵr gan greu dail mwy trwchus a gwreiddiau sy'n gallu tyfu'n fawr.

## 7. *Homalothecium sericeum* · "Silky Wall Feather-moss"



Mae'r mwsogl hwn yn creu clytiau trwchus sy'n amrywio yn ei liw o wyrdd i oren. Mae'n fwy amlwg yn sych gan fod y canghennau'n cyrlio i edrych fel sidan hardd. Yn ddifyr iawn, mae dail bach y mwsogl hwn fel plethi, sy'n helpu cadw dŵr.

## 8. *Metzgeria furcata* · Fforchlys cyffredin



Gall y fforchlys bychan hwn greu clytiau llydan, yn bennaf fel epiffyt ar ganghennau a bonau coed. O edrych yn fanwl, mae ffrych i'w gweld yn nau ben y rhubanau bach thalus hanner clir, felly defnyddir y geiriau fforchog a feil yn y disgrifiad cyffredin.

## 9. *Rhytidiadelphus squarrosus* · "Springy Turf-moss"



Mae'r mwsogl hwn yn gyffredin yn cael ei gysylltu â ffyngau capan cŵyr mewn rhewlif fel glaswellt, a matiau mwy trwchus sy'n feddal i'w cyffwrdd. O edrych i lawr bydd yr egin yn dangos ffurf seren wedi'i chreu gan drefniant y dail.

## 10. *Neckera complanata* · "Flat Neckera"



Pan ddarganfuwyd y 'Dyn Iâ', y corff 5,200 blwydd oed mewn rhewlif yn toddi yn y Tyrol, gwelwyd ei fod wedi llenwi ei esgidiau â mwsogl i gadw'n gynnes. Darganfuwyd Neckera complanat ymhlith y mwsogl.

## 11. *Plagiochila asplenioides* · Dueglys Mawr



Mae i'r dueglys mawr hwn goesau hyd at 12cm o hyd. Gallwch gamgymryd y planhigyn hwn am fwsogl, ond mae'r dail wedi'u trefnu mewn dwy res ar hyd dwy ochr y goes, sy'n nodweddiadol o'r dueglys deiliog.

## Awgrymiadau defnyddiol

1. Edrychwch i lawr o gwmpas y nodwedd dŵr.
2. Archwiliwch fonau'r coed.
3. Edrychwch ar lan agosaf y nodwedd dŵr lle mae'n rhedeg i lawr i'r dde.
4. Yn tyfu ar ganghennau bôn yr *Ulmus x hollandica* 'coeden Jacqueline Hillier'.
5. Edrychwch ar y Tywodfaen Calch Coch Defonaidd.
6. Wrth draed y grisiau i fyny at yr ardd glogfeini.
7. Edrychwch ar y gangen isaf ar y dde ar y goeden *Lonicera maackii f. podocarpa.*
8. Edrychwch yn ofalus ar fonau'r coed.
9. Yn y darn porfa gyferbyn â cherflun y ddraig.
10. Edrychwch yn fanylach ar y mur.
11. Edrychwch yn agos ar y mur.